# CYNLLUN CYNEFIN LLANBERIS



*Graffiti, Andy Birch, comisiynwyd gan Ganolfan Gymunedol Llanberis*


Datblygwyd gan:

Mari Beynon Owen

Julia Thomason, Julia Thomason Associates

Rob Chambers, Chambers Conservation

**Cynnwys**

1. Crynodeb Gweithredol

2. Cyflwyniad

3. Demograffeg a Phroffil Economaidd

4. Archwiliad o’r Gymuned

5. Isadeiledd a Gwasanaethau

6. Ymgynghori

7. Asesiad Ymwelwyr

8. Asesiad o’r Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol

9. Y Prif Heriau a’r Cyfleoedd

10. Casgliadau ac Argymhellion

11. Ffynonellau Ariannu Posib

12. Rhestr atodiadau:

Atodiad 1: Rhestr o’r unigolion/mudiadau y cysylltwyd â nhw
Atodiad 2: Mynegai Amddifadedd Lluosog/cyflogaeth yn ôl sector
Atodiad 3: Proffil ymwelwyr/twristiaeth
Atodiad 4: Astudiaeth o Gyfleoedd yr Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol

## 1 Crynodeb Gweithredol

Mae'r Cynllun Cynefin hwn yn cyd-fynd â datblygiad Cais Safle Treftadaeth y Byd i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, a'i ddau amcan yw:

- Cynyddu ymwybyddiaeth, balchder a dealltwriaeth o dreftadaeth gyfoethog y diwydiant llechi
- Hyrwyddo adfywiad cymdeithasol ac economaidd yr ardal.

Cynhaliwyd gwaith ymchwil cynradd ac eilaidd trylwyr i hysbysu datblygiad y Cynllun, a oedd yn cynnwys:

- Adolygiad dogfennol a data o ddemograffeg a phroffil economaidd Llanberis, y cyd-destun strategol, prosiectau adfywio a phroffil ymwelwyr/twristiaeth
- Asesiadau manwl o isadeiledd y pentref, gwasanaethau, darpariaeth gymunedol, y cynnig i'r ymwelydd, a'r amgylchedd adeiledig hanesyddol - yn eu mysg, gwnaed gwaith archwilio o safbwynt yr 'ymwelydd cudd'
- Asesiad o gryfderau a gwendidau allweddol Llanberis, a'r heriau a'r cyfleoedd yma
- Adnabod y prif ffynonellau ariannu posib er mwyn gallu blaenoriaethu/mesur dichonoldeb prosiectau
- Casgliadau ac argymhellion, lle nodwyd y themâu ar gyfer datblygu Llanberis.

Ynghyd â'r Cynllun Cynefin, paratowyd Cynllun Gweithredu, sydd yn nodi ac yn blaenoriaethu prosiectau cyfredol ac arfaethedig, ynghyd ag adnoddau gofynnol, amserlenni, arweinydd prosiect a darpar bartneriaid. Mae hon yn ddogfen weithredol, a gaiff ddiweddaru'n rheolaidd a'i hadolygu'n flynyddol gan Gyngor Gwynedd a'r budd-ddeiliaid. Adnabuwyd y prosiectau yn sgil ymgynghoriad gyda'r gymuned a budd-ddeiliaid.

Dyma grynhoi **prif ganfyddiadau ein hymchwil eilaidd**:

- Dengys Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru fod mynediad i wasanaethau a thai yn faterion o bwys, neu a all fod o bwys yn Llanberis, ond y rhan fwyaf o'r mesuryddion, yn arbennig yr amgylchedd ffisegol, yn cymharu'n dda gyda Gwynedd a gweddill Cymru. Dengys data o gyfrifiad 2011 fod lefelau o ddiweithdra ychydig yn is na'r cyfartaledd, a bod y gyfran o boblogaeth Llanberis sydd yn weithgar yn economaidd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd.
- Daeth yn amlwg mewn arolwg ar-lein (wrth ddatblygu Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd) fod angen mynd i'r afael â chyfleusterau i ymwelwyr a'r cyhoedd, gan gynnwys atyniadau o safon; mynediad i isadeiledd a gwasanaethau, gan gynnwys parcio; ymddwyn yn gyfeillgar tuag at dwristiaid; siopa/cyfleoedd i siopa.
- 2016 oedd y flwyddyn fwyaf llwyddiannus erioed i'r dwristiaeth Gwynedd, gyda gwariant o dros £1 biliwn, dros 7 miliwn o ymwelwyr, a chynnydd mewn gwario arian y tu allan i fisoedd yr haf.
- Daw ymwelwyr i Wynedd oherwydd ei thirwedd, ei chefn gwlad a'i thraethau, yn ogystal â'r gweithgareddau awyr agored helaeth. Datganodd 82% o ymwelwyr eu bod yn fodlon iawn gyda'u hymweliad, a dywedodd 98% y byddent yn debygol o ddychwelyd i Wynedd.

Dyma grynhoi **prif ganfyddiadau ein hymchwil cynradd**:

- Angen **gwella cyfleusterau ac isadeiledd ymwelwyr** er budd ymwelwyr a'r gymuned**.**
- Adeiladu ar **brosiectau dehongli, a rhai hunaniaeth ddiwylliannol a chymdeithasol** sydd eisoes yn bod, ac annog dehongliad mwy cynhwysfawr o Chwarel Dinorwig a'i hadeiladau.
- Creu **llwybrau cerdded a beicio, a mynedfeydd newydd i'r chwarel.**
- Darparu **cyfleusterau hamdden** newydd er budd y gymuned.
- Sicrhau bod **amgylchedd adeiledig hanesyddol** y pentref a'r chwarel yn cael ei amddiffyn, a bod adeiladau treftadaeth ddiwydiannol a rhai eraill o ddiddordeb pensaernïol yn cael eu dehongli'n fwy helaeth

## 2 Cyflwyniad

Datblygwyd y Cynllun Cynefin i gyd-fynd â datblygiad Cais Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth, balchder a dealltwriaeth o dreftadaeth gyfoethog y diwydiant llechi ac i hyrwyddo adfywio economaidd a chymdeithasol yr ardal.

Saif Llanberis ar lan ddeheuol Llyn Padarn, wrth droed Yr Wyddfa, mynydd uchaf Cymru. Mae'r pentref wedi ei henwi ar ôl Sant Peris, un o seintiau cynnar y Cymry. Mae'n ganolfan boblogaidd ar gyfer gweithgareddau awyr agored, megis cerdded, mynydda, beicio mynydd a chwaraeon dŵr.

Mae'n lle poblogaidd i ddechrau'r daith i gopa'r Wyddfa, ac ar gyfer Trên Bach yr Wyddfa sydd wedi bod yn rhedeg ers 1896.

Lleolir Amgueddfa Lechi Cymru yn hen weithdai Chwarel Dinorwig. O 1809 ymlaen, datblygwyd y chwarel gan bartneriaeth busnes dan arweinyddiaeth Assheton Smith, o ystâd y Faenol. Ffynnodd y fenter ar ôl agor lein fach a dynwyd gan geffylau i'r Felinheli (Port Dinorwic) ym 1824.

Ar ei hanterth yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd y chwarel yn ymestyn dros 700 erw, a chyflogwyd dros 3,000 o ddynion yno. Hon oedd y chwarel lechi frig fwyaf ond un yn y wlad, yn wir, yn y byd – Chwarel y Penrhyn ym Methesda oedd y fwyaf. Erbyn 1930 gostyngodd y nifer a gyflogwyd yn Ninorwig i 2,000; a pharhawyd â'r cloddio yno tan 1969.

Adeiladwyd Gorsaf Ynni Dinorwig, sef cynllun trydan dŵr storfa bwmp y tu mewn i'r hen chwarel. Cychwynnwyd ar y gwaith ym 1974 ac fe'i cwblhawyd ddeng mlynedd yn ddiweddarach.

## 3 Demograffeg a Phroffil Economaidd

- Mae gan Lanberis boblogaeth o 2,026 (ffynhonnell: cyfrifiad 2011); o'r rhain, mae 1,501 (74.1%) o oedran gweithio - 16-64; mae 72% o'r boblogaeth yn weithgar yn economaidd
- Mae 28% wedi eu cofrestru'n anweithgar yn economaidd; â 5% ohonynt yn ddi-waith, a 18% yn sâl tymor hir/anabl
- Mae 24% o'r boblogaeth heb unrhyw gymhwyster (16+)
- Mae 65% yn berchen ar dŷ; 18% yn byw mewn tai rhent cymdeithasol; a 16% yn rhentu'n breifat
- Mae 23% o aelwydydd heb gar
- Mae 81% o'r boblogaeth mewn iechyd da iawn/da; 13% mewn iechyd gweddol; a 6% yn wael eu hiechyd
- O ran dosbarthiadau cymdeithasol, mae 33% o'r boblogaeth yn bobl broffesiynol a rheolwyr; mae gan 32% sgiliau; 25% a chanddynt rai/dim sgiliau; a 10% yn fyfyrwyr/eraill.

**Cymhariaeth o'r cyfartaledd yng Ngwynedd a Chymru:**

- Mae'r gyfran o'r rhai sydd yn weithgar yn economaidd (72%) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (65%) a Chymru (66%); ac felly mae'r gyfran o'r rhai sydd yn anweithgar yn economaidd yn llawer is (28%) na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (35%) a Chymru (34%)
- Mae lefelau diweithdra (5%) ychydig yn is na chyfartaledd Gwynedd (5.5%) a Chymru (6.5%)
- Mae cyfran y boblogaeth sydd yn sâl tymor hir/anabl yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (12.5%), ond yn gymesur â chyfartaledd Cymru (18%)
- Mae cyfran y boblogaeth (oed 16+) sydd heb gymwysterau (24%) yn gymesur â'r cyfartaledd (23%) yng Ngwynedd a Chymru (26%)
- Mae perchnogaeth tai (65%) yn cyfateb i'r cyfartaledd yng Ngwynedd (66%) a Chymru (68%)
- Mae cyfran o aelwydydd heb gar (23%) yn gymesur â chyfartaledd Gwynedd (21%) a Chymru (23%)
- Mae nifer y bobl mewn iechyd da/da iawn (81%) yn Llanberis yn debyg iawn i'r cyfartaledd yng Ngwynedd (81%) a Chymru (78%); mae'r lefelau o'r rhai mewn iechyd gweddol, a sâl/sâl iawn hefyd yn cyfateb i'r cyfartaledd
- Yn Llanberis, mae lefelau sylweddol uwch o bobl dosbarth proffesiynol a rheolwyr (33%) na'r cyfartaledd yng Ngwynedd a Chymru (27%); mae cyfran y boblogaeth a chanddynt sgiliau hefyd yn uwch (32%) na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (30%) a Chymru (29%). Ac mae nifer y bobl a chanddynt rai/dim sgiliau (25%) ychydig yn is na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (26%) a Chymru (29%). Mae'r gyfran o fyfyrwyr (10%) yn llawer is na chyfartaledd Gwynedd (17%) a Chymru (15%).

Prif gyflogwyr ardal Llanberis yw:

**Siemens Healthineers** - cyfleuster cynhyrchu offer meddygol. Cyflogir dros 400 mewn amrywiol swyddi, gan gynnwys gwyddonwyr, peirianwyr, gweithrediadau, cyfrifwyr, rheolwyr ansawdd, prynwyr a thechnegwyr labordy.

**DMM International** – gwneuthurwr offer mynydda, sydd yn cyflogi dros 150 ar hyn o bryd, ac ar fin sefydlu ffatri yn Denver, Gogledd America.

**Gorsaf Ynni Dinorwig; Engie/First Hydro** - cyflogir 130 yng Ngorsaf Ynni Dinorwig.

**Yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol** – cyflogir 14 gan y sefydliad.

**Menter Fachwen** – cwmni menter gymunedol sy'n cyflogi 24 ac yn cefnogi 52 unigolyn, sydd yn cyfateb â 35 swydd llawn amser.

Mae **Rheilffordd yr Wyddfa** a **Gwesty'r Royal Fictoria** yn cyflogi nifer yn ogystal.

Dengys y tabl yn Atodiad 2 y sectorau cyflogaeth lle mae aelodau'r gymuned sy'n weithgar yn economaidd yn gweithio.

## Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru


Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 yw mesuriad swyddogol amddifadedd cymharol mewn ardaloedd llai yng Nghymru; gelwir y rhain yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) ac mae ganddynt boblogaeth o 1,600 ar gyfartaledd. Gan fod pob ACEHI yn debyg, mae'n haws gwneud dadansoddiad cymharol. Cyflwynir y Mynegai fel cyfres o rengoedd: mae rheng 1 yn cynrychioli'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, a rheng 1909 yn cynrychioli'r un lleiaf difreintiedig. Mae hyn yn galluogi i ni wybod pa ardaloedd sydd yn fwy neu lai difreintiedig, ond nid maint y gagendor.

Yn Atodiad 2 rydym yn cyflwyno data sy'n dangos sut mae ACEHI yn Llanberis yn cymharu ag ardaloedd eraill ledled Cymru a Gwynedd.

Dengys y data mai mynediad i wasanaethau a thai yw'r meysydd o bwys, neu'r rhai a allai fod o bwys, yn Llanberis, ond fod y rhan fwyaf o'r dangosyddion, yn arbennig yr amgylchedd ffisegol, yn cymharu'n dda gyda Gwynedd a gweddill Cymru. Dengys data o gyfrifiad 2011 fod lefelau diweithdra ychydig yn is na'r cyfartaledd a bod y gyfran o boblogaeth Llanberis sydd yn weithgar yn economaidd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd.

## Gosod ACEHI yn ôl eu rheng yng Ngwynedd

Dengys y siartiau isod reng Llanberis yng Nghymru yn ôl mesuryddion unigol. Fel nodwyd uchod, cyflwynir y data mewn mynegai yn wrthol; hynny yw, po isaf y sgôr, po uchaf yr amddifadedd ac i'r gwrthwyneb, po uchaf y sgôr, po isaf yr amddifadedd. Er enghraifft, mae'r siart isod yn dangos fod Llanberis ymysg y 50% lleiaf difreintiedig ym mhob mesurydd heblaw am fynediad i wasanaethau, lle saif ymysg y 10% - 20% mwyaf difreintiedig.




## 4 Archwiliad o’r Gymuned

Cynrychiolaeth o’r Gymuned

Yn yr adran hon rydym yn rhoi braslun o adnoddau a mudiadau cymunedol Llanberis er mwyn rhoi trosolwg o’r ddarpariaeth sydd ar gael i’r gymuned leol.

**Cyngor Cymuned Llanberis** – mae pentrefi Llanberis a Nant Peris o fewn ardal y cyngor cymuned.

Grwpiau Cymunedol/Gweithgareddau

**Canolfan Gymunedol Llanberis** – canolfan gymunedol y gall mudiadau cymunedol ei defnyddio am ddim: gofod cyngerdd/theatr/cyfarfod bach; cyfleusterau canolfan hamdden/chwaraeon; meithrinfa. Cyfranna’r Ganolfan unrhyw arian dros ben o’r taliadau parcio tuag at grwpiau ac achosion lleol.

**Grŵp Datblygu Cymunedol Llanberis** – prif nodau'r grŵp pan gafodd ei greu yn 2010 oedd amddiffyn, gwella a diogelu Llanberis, hyrwyddo balchder yn y gymuned, codi ymwybyddiaeth yn yr amgylchedd lleol a chodi arian trwy grantiau a rhoddion.

**Pentref Taclus Llanberis -** y prif fater sy’n mynd â sylw’r grŵp yw’r sesiwn casglu sbwriel wythnosol yn yr Haf, a misol yn ystod y gaeaf i geisio lliniaru’r broblem ysbwriel sy’n gwaethygu gan bobl sy’n gwersylla dros nos yn y pentref. Mae hefyd yn gyfrifol am blannu blodau a phlanhigion o amgylch y pentref ac am drefnu digwyddiadau cymunedol megis y Ffair Nadolig.

**Eglwys Sant Padarn** - mae aelodau’r eglwys wedi cynnal ymgyrch ariannu fawr er mwyn talu am arolwg pensaernïol i asesu faint o waith strwythurol fydd ei angen i achub yr eglwys. Mae aelodau’r gymuned wedi cynnig eu gwasanaeth ac wedi rhoi llafur am ddim er mwyn

cynnal a chadw'r adeilad yn y cyfamser. Hyd yn hyn, mae cefnogaeth y gymuned wedi golygu eu bod bron â chyrraedd eu nod. Cyflawnwyd hyn drwy gynnal nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn yr eglwys, sydd wedi rhoi canolbwynt newydd i'r gymuned hon. Y bwriad i'r dyfodol yw creu gofod mwy hyblyg yn yr eglwys y gellid ei ddefnyddio mewn nifer o ffyrdd gan y gymuned.

**Y Festri** – theatr celfyddydau cymunedol mewn festri hen gapel. Mae'n darparu gofod perfformio, ymarfer, a chreadigol i'r gymuned. Mae'n cynnig clwb celf ar ôl ysgol i blant, a hyfforddiant sgiliau syrcas a gweithdai syrcas i Wasanaethau Ieuenctid/ NEET. Mae'n gweithredu cynllun banc Amser Cymunedol/Sgiliau. Mae'n cyd-weithredu gydag amryw fudiadau lleol ac ar fin dechrau gweithio ar furlun, a gaiff ei ariannu gan Engie, ar gyfer Canolfan y Mynydd Gwefru. Mae dau hen giosg ffôn ar y Stryd Fawr yn cael eu defnyddio gan Y Festri fel gofod arddangos celf dros dro.

**Ynni Padarn Peris -** cynllun ynni dŵr cymunedol a gododd £280,000 trwy gynnig cyfranddaliadau; cyfrannwyd 97% o'r cyfanswm gan bobl leol. Cychwynnodd gynhyrchu ynni yn 2014 ar Afon Goch. Mae wrthi'n sefydlu adran elusennol a fydd yn dosbarthu arian dros ben, oddeutu £10,000 y flwyddyn, i brosiectau cadwraeth lleol, mentrau cymunedol, a chynlluniau arbed ynni.

**Mudiadau cymunedol, diwylliannol, chwaraeon a threftadaeth** yn Llanberis:
Capel Coch
Clwb Antur Dyffryn Peris
Clwb Canŵio Eryri
Clwb Pêl Droed Llanberis
Côr Meibion Dyffryn Peris
Eglwys Sant Padarn
Grŵp Datblygu Cymunedol Llanberis
Gŵyl Llanberis/Carnifal
Hwb Eryri
Menter Fachwen
Siop, Stryd Fawr, Llanberis
Caffi Caban y Cwm, siop
Gweithdy Saer Greenworks, Garddwriaeth Greenworks; Cwm y Glo
Menter Fachwen (Prosiect Cerdded a Darganfod)
Merched y Wawr
Sefydliad y Merched (WI)
Y Festri
Ynni Padarn Peris

**Lleoliadau diwylliannol a chelfyddydol yn y pentref:**

- Canolfan Gymunedol Llanberis - digwyddiadau celfyddydol, cyngherddau, cynyrchiadau drama ar raddfa fach
- Y Festri – gofod perfformio, ymarfer a chreadigol.

## 5 Isadeiledd a Gwasanaethau

**Bws:** Mae'r gwasanaeth bws o Lanberis i Gaernarfon yn rhedeg o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn, 7.30 – 17.40; dydd Sul a Gwyliau Banc, pum bws rhwng 08.00 a 16.45.

Mae gwasanaeth bws o Lanberis i Fangor, dydd Llun tan ddydd Sadwrn, 06.15 – 18.30; dydd Sul a Gwyliau Banc, pedwar bws rhwng 10.00 a 17.30.

Mae'r gwasanaeth bws Sherpa yn rhedeg o Lanberis i Ben y Pas ar ddydd Sadwrn, Sul a Gwyliau Banc – deg bws rhwng 07.45 a 17.00. Mae'r bws olaf o Ben y Pas yn gadael am 17.35.

**Parcio:** Mae pedwar maes parcio talu ac arddangos yn Llanberis ac o amgylch y llyn, gyda chyfanswm o 656 lle. Mae rhywfaint o lefydd parcio tymor byr ar y Stryd Fawr ar gyfer siopau a gwasanaethau; mae gan rai caffis a gwestai lefydd parcio talu – yng Ngwesty'r Royal Victoria mae 300 o lefydd parcio.

**Llwybr Beicio:** Mae Lôn Las Peris, llwybr beicio a cherdded (un filltir o hyd), yn dilyn glannau Llyn Padarn; mae Ffordd Brailsford yn mynd drwy Lanberis.

**Di-wifr -** mae cynllun Wi-fi Eryri wedi derbyn arian gan Arloesi Gwynedd Wledig i ddatblygu gwasanaeth di-wifr ar gyfer Yr Wyddfa a'r ardal o'i hamgylch, yn bennaf ar gyfer y Gwasanaeth Achub Mynydd a'r gwasanaethau brys eraill.

## 6 Ymgynghori

### Ymgynghori blaenorol

Dynodwyd Chwarel Glyn Rhonwy, ar gyrion Llanberis, yn Safle Datblygu Strategol gan Gyngor Gwynedd, ac mae nifer o gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer defnydd hamdden/twristiaeth, megis pentref gwyliau, canolfan sgïo dan do, a chanolfan beicio mynydd wedi eu crybwyll yn y gorffennol. Mewn ymateb i gynnig gan y Quarry Battery Company am gynllun storfa bwmp, cynhyrchodd Gyngor Gwynedd *Adroddiad Effaith Lleol: Cynllun Storfa Bwmp Glyn Rhonwy* ym mis Chwefror 2016 a oedd yn rhoi ystyriaeth i'r gwaith ymgynghori gyda'r gymuned a wnaeth y cwmni.

Mae ymgynghoriad yn digwydd ar hyn o bryd yn lleol mewn perthynas â datblygiad arfaethedig y Ganolfan Ryngwladol Adnoddau Daear, a fydd hefyd yng Nglyn Rhonwy ac yn ffinio â'r cynllun Storfa Bwmp www.ierc.world.

### Ein hymgynghoriad

Bu i ni fynychu'r digwyddiadau a'r gweithgareddau a ganlyn lle gwnaethom ymgynghori â'r gymuned:

**Casglu Sbwriel Pentref Taclus Llanberis:** wedi cymryd rhan yn y sesiwn ddwy awr wythnosol ar fore Sul, yn hel sbwriel ar hyd Stryd Fawr; wedi ymgynghori gyda'r cyhoedd ac aelodau'r tîm casglu sbwriel.

**Siop Dros Dro Sant Padarn**: wedi mynychu diwrnod siop dros dro, a gynhaliwyd gan Bwyllgor Apêl yr Eglwys i godi arian at yr arolwg pensaernïol sydd ei angen i asesu faint o waith strwythurol sydd ei angen i achub yr eglwys. Wedi ymgynghori gydag aelodau o'r pwyllgor a'r cyhoedd yng nghaffi'r eglwys.

**Cyflwyniad gan y Ganolfan Ryngwladol Adnoddau Daear, Canolfan Gymunedol Llanberis**: wedi mynychu cyflwyniad gan arweinwyr y prosiect yn amlinellu budd y datblygiad i'r gymuned leol; wedi trafod gyda thrigolion a chynghorwyr lleol.

Buom yn ymgynghori gyda'r **budd-ddeiliaid lleol** a ganlyn**:**

- Yr Amgueddfa Llechi Genedlaethol
- Canolfan Gymunedol Llanberis
- Cyngor Cymuned Llanberis
- Eglwys Sant Padarn
- rŵp Datblygu Cymunedol Llanberis/Pentref Taclus Llanberis
- Engie/Gorsaf Ynni Dinorwig
- Hwb Eryri
- Menter Fachwen
- Y Festri
- Ynni Padarn Peris

Rhestrir y prosiectau sydd wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd a rhai newydd a ddaeth i'r amlwg yn ystod y broses ymgynghori yn y Cynllun Gweithredu.

<u>Canfyddiadau ein hymgynghoriad</u>
Yma ceir crynodeb o'r prif faterion datblygu cymunedol a ddaeth i'r amlwg yn ystod y broses ymgynghori.

**Adnoddau i ymwelwyr ac isadeiledd**
Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd amlwg mewn twristiaeth, gyda'r rhan fwyaf o'r atyniadau a'r cyrchfannau yn adrodd bod ganddynt fwy o ymwelwyr nac erioed. Mae'r farchnad gweithgareddau awyr agored/antur wedi ehangu yn sgil gwahanol ymgyrchoedd marchnata ac mae Llanberis wedi datblygu'n ganolfan ar gyfer:

Chwaraeon Dŵr – mae'r adnoddau ar Lyn Padarn wedi eu gwella'n sylweddol ers i Gyngor Gwynedd osod pontynau o safle chwaraeon dŵr Gemau Olympaidd Llundain 2012;

Chwaraeon eithafol – dringo clogwyni, cyfeiriannu, beicio mynydd, scuba–blymio yn Chwarel Vivian;

Cynhelir nifer o rasys a chystadlaethau rhedeg mynydd a dygnwch corfforol adnabyddus yn y pentref a'r ardal gyfagos;

Yn gyffredinol, mae'r gymuned o'r farn fod Llanberis bellach dan ei sang o dwristiaid, a bod hyn yn cael effaith andwyol ar gyfleusterau ac isadeiledd y pentref. Dyma'r prif bryderon:

- Tagfeydd traffig a pharcio – nid oes digon o feysydd parcio ac felly mae ceir yn parcio mewn ardaloedd preswyl
- Y cynnydd mewn eiddo Airbnb yn y pentref yn ychwanegu at y broblem barcio; prisiau tai yn codi a phobl leol yn methu fforddio prynu tŷ. Amcangyfrifir fod nifer yr eiddo Airbnb wedi dyblu yn y flwyddyn ddiwethaf i oddeutu 280.
- Ysbwriel - mae gwersylla gwyllt a faniau gwersylla, yn arbennig yn ardal y lagŵns ger y llyn, yn cyfrannu at y broblem sbwriel enbyd. Nid oes digon o finiau sbwriel nac ardaloedd ail-gylchu i ymdrin â'r holl sbwriel sydd yn cael ei adael.
- Mae'r rhaglen o rasys a chystadlaethau yn drwy gydol y flwyddyn yn golygu bod y tymor ymwelwyr yn cael ei ymestyn ac felly'n cyfrannu at yr economi leol. Mae pryder fod syniad gwreiddiol Ras yr Wyddfa, sy'n dal i gael ei drefnu a'i reoli gan fudiadau lleol, wedi mynd yn rhy fasnachol ac felly mai cwmnïau o du hwnt i'r ardal sydd bellach yn elwa o'r digwyddiadau dygnwch hyn gan greu problemau i'r boblogaeth leol, fel nodwyd uchod.

**Dehongli, a hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol**

Yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol

Mae bodolaeth yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol yn Llanberis yn cyfrannu arbenigedd ac awdurdod i'r dehongliad o ddiwydiant llechi Cymru'n gyffredinol. Gall ymwelwyr wylio'r chwarelwyr medrus a chrefftus wrth eu gwaith; a chael blas ar eu hamodau byw; ac ennyn dealltwriaeth o hanes diwydiannol a chymdeithasol. Er bod yr amgueddfa'n dathlu treftadaeth holl ardaloedd y chwareli llechi, mae Chwarel Dinorwig yn bresenoldeb dramatig uwchlaw'r amgueddfa a'r pentref. Mae ymweliad ag Ysbyty'r Chwarel, sydd dan reolaeth Cyngor Gwynedd, yn ychwanegu'n fawr at brofiad yr ymwelydd.

Mae gan yr Amgueddfa raglen allgyrch eang. Mae'n cynnig gweithgareddau addysgiadol ar y safle, prosiectau creadigol ar y cyd drwy gefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru ac, yn ddiweddar, trefnwyd nifer o ddigwyddiadau adloniant i'r teulu er mwyn croesawu'r gymuned leol i'r amgueddfa.

At y dyfodol, mae cynlluniau i ail-ddatblygu'r safle ac ailwampio'r cyfleusterau arddangos er mwyn gallu cynyddu ei allu i ddehongli. Bydd hefyd yn dod yn ganolfan i Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Ngogledd Cymru i gynnal arddangosfeydd dros dro o elfennau o'r casgliad cenedlaethol. Byddai hyn yn sicr yn trawsnewid yr amgueddfa ac yn dod â chyfleoedd newydd i ddehongli amrywiol gasgliadau'r Amgueddfa Genedlaethol. Mae hwn yn gynllun tymor hir uchelgeisiol, sydd angen cyllid sylweddol; ar hyn o bryd, mae ar ganol y cyfnod cyn yr astudiaeth dichonoldeb.

Menter Fachwen

Arweinir y rhaglen Cerdded a Darganfod gan Gareth Roberts, cydlynydd teithiau cerdded Menter Fachwen, sydd yn hynod wybodus am yr ardal ac yn darparu cyfres o deithiau cerdded drwy'r flwyddyn, yn bennaf yn ardal y chwareli ond hefyd ymhellach i ffwrdd. Maent i gyd wedi eu hymchwilio'n drwyadl ac mae cyfres o daflenni gwybodaeth i gyd-fynd â'r teithiau cerdded lleol. Maent ar werth yn siop Menter Fachwen yn Stryd Fawr Llanberis, sydd hefyd yn ganolfan adnoddau hanes lleol.

Mae cynlluniau ar y gweill i adleoli Menter Fachwen o'u canolfan bresennol yng Ngwm y Glo i adeilad yr ysgol sydd bellach yn wag. Y syniad yw y byddai'r adnodd hanes lleol yn symud i adeilad yr ysgol ac elfennau hanesyddol yn cael eu harddangos mewn gofod ddehongli newydd y tu mewn i'r adeilad.

<u>Casgliad Ffotograffiaeth Isaac Hughes</u>
Mae gan Gareth Roberts (gweler isod) fynediad i gasgliad preifat o blatiau ffotograffig, sef gwaith ffotograffydd/datblygwr lleol, Isaac Hughes. Lluniau o'r chwarelwyr yw'r rhan fwyaf ohonynt ac mae rhai eisoes i'w gweld yn yr Amgueddfa Llechi. Fodd bynnag, mae'r casgliad yn haeddu cael cartref parhaol.

<u>Taith o Lanberis i Clegir/Gwilym Roberts</u>
Roedd gan Gwilym Roberts o Lanberis ddiddordeb mawr mewn hanes lleol, ac fe'i coffeir yng Nghanolfan Gymunedol Llanberis. Yn ddiweddar, achubwyd ei archif bersonol am hanes Llanberis rhag lleithder ac mae'n cael ei storio yn y Ganolfan. Mae hon yn archif hanesyddol amhrisiadwy, sy'n gofyn cael ei chynnal a'i chadw'n briodol, ac sy'n cynnwys y ddogfen ysgrifenedig *Taith o Lanberis i Clegir*, sef cofnod o fywyd y pentref.

<u>Hwb Eryri</u>
Yn 2015, derbyniodd Hwb Eryri arian grant i hyrwyddo Llanberis, i ddarparu gwasanaeth gwybodaeth i dwristiaid, paneli dehongli/gwybodaeth, ac i helpu cydlynu i ddigwyddiadau sy'n dod i mewn i'r ardal. Cyflwynodd yr uchod, ac mae nawr yn darparu gwybodaeth i dwristiaid yn yr Outdoor Shop ar Stryd Fawr, Llanberis, gan fod y Mynydd Gwefru, lle oedd y gwasanaeth gynt, ar gau yn ystod gwaith adnewyddu.

Mae rhai o'i gyfrifoldebau am ddigwyddiadau cymunedol wedi eu trosglwyddo i Grŵp Datblygu Cymunedol Llanberis.

Un cyfle dehongli a nodwyd gan Hwb Eryri yw'r posibilrwydd o ddarparu gwybodaeth yng Nghapel Hebron, sydd gerllaw prif lwybr yr Wyddfa a'r rheilffordd. Ni ddefnyddir y capel mwyach, ond gallai fod yn fodd o gyflwyno treftadaeth y chwarelwyr a ariannodd ac a adeiladodd y capel.

<u>Chwarel Dinorwig</u>
Mae Chwarel Dinorwig yn ymestyn dros y mynydd rhwng Llanberis a phentrefi Dinorwig a Deiniolen. Mae ei phresenoldeb uwchlaw'r pentref a'r llyn yn ddramatig. Er bod llwybr cyhoeddus, nid oes unrhyw baneli dehongli na mynediad i sawl un o'r adeiladau allweddol.

Fel rhan o'i chynllun datblygu, hoffai'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol alluogi mynediad i'r chwarel drwy'r inclein, ond golyga hyn sicrhau cydweithrediad cwmni Engie, sef perchennog y chwarel a Gorsaf Ynni Dinorwig yng nghrombil y mynydd. Mae Engie yn cynnal teithiau i'r Mynydd Gwefru, sy'n brofiad hynod o ddiddorol ac addysgiadol. Nid oes ganddo gynlluniau ar hyn o bryd i ddarparu adnoddau dehongli yn y chwarel ei hunan.

Adnabu'r grŵp cerdded a sefydlwyd gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen i ystyried adnoddau dehongli ar ochr Deiniolen y chwarel, nifer o elfennau dehongli y gellid eu

cyflwyno: paneli gwybodaeth, arwyddbyst, Mannau Hanes, teithiau tywys, gweithgareddau addysgiadol ac ati, a llwybrau newydd (gweler isod).

Canolfan y Mynydd Gwefru
Mae'n cael ei adnewyddu ar hyn o bryd – awgrymwyd, oherwydd ei leoliad canolog, y gellid cael gofod arddangos bychan yno i ddehongli hanes yr ardal.

**Cyfeiriadedd a chysylltiadau**
Mae'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i Lanberis a'r heriau a ddaw yn sgil hynny gyda llif ymwelwyr, parcio a phroblemau isadeiledd, megis erydiad, wedi sbarduno nifer o unigolion a mudiadau i ystyried ffyrdd mynediad, llwybrau cerdded a beicio newydd.

<u>Llwybr Inclein Gilfach Ddu</u>
Ar hyn o bryd ceir mynediad i Chwarel Dinorwig ar hyd llwybr cyhoeddus, ond fel rhan o'i chynllun ail-ddatblygu, hoffai'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol greu llwybr newydd i fyny'r inclein.

Drwy gysylltu gyda'r prif lwybr, ac o bosib llwybrau cerdded a beicio newydd, sydd yn cael eu cynnig gan fudiadau eraill (gweler isod), ynghyd â darparu adnoddau parcio amgen yn Neiniolen, byddai modd creu cylchdaith newydd rhwng Llanberis a Deiniolen.

Mae prosiect ymchwil Llwybrau Cerdded Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn argymell creu llwybrau newydd yn y chwarel er mwyn creu llwybr cylchol rhwng Dinorwig a Llanberis, sy'n cysylltu â'r Amgueddfa Lechi. Fel y nodwyd, mae hyn yn ddibynnol ar gydweithrediad Engie, perchennog y chwarel.

Posibilrwydd arall a nodwyd gan Fenter Fachwen, yw creu cyfres o lwybrau natur yn ardal Dinorwig/Llanberis, a fyddai, pe câi ei gyfuno â phrosiect plannu coed, a phe câi gefnogaeth ffermwyr lleol, yn gwella'r amgylchedd naturiol, yn hyrwyddo galluoedd traddodiadol megis gosod crawiau, ac yn creu cyfleoedd cyflogaeth.

Mae Sustrans (elusen genedlaethol yn y DU sydd yn anelu at hwyluso cyfleoedd cerdded a beicio) yn awyddus i gyd-weithio gyda mudiadau cymunedol lleol i ddatblygu llwybrau beicio newydd; un llwybr newydd a nodwyd gan y Grŵp Dehongli yw'r hen lein fach.

<u>Cylchdro'r Llyn</u>
Ar hyn o bryd nid oes ffordd addas ar gyfer cadair olwyn o gwmpas y llyn i gyd. Byddai modd cysylltu gyda'r hen lein fach a hyd yn oed darparu tacsi dŵr o lan i lan.

<u>Parkrun</u>
Syniad am lwybr Parkrun lleol fyddai cael man cychwyn ger yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol a rhedeg heibio'r barics yn y chwarel. Byddai angen mwy o arwyddbyst ac yswiriant digwyddiad blynyddol.

Coed Doctor
Ardal goediog boblogaidd a ddefnyddir gan bobl leol, sydd yn yr arfaeth ar hyn o bryd fel cynllun trosglwyddo asedau i'r gymuned gan Gyngor Gwynedd. Gallai greu cyfle arall i ddatblygu llwybrau natur.

**Adnoddau Hamdden**

Parc Llif (Flow Park™) - cysyniad am barc llif i bob gallu wedi ei ddatblygu gan Chris Williamson, perchennog siop beiciau yn Llanberis, ac yn cael ei gefnogi gan Barc Padarn (parc gwledig a reolir gan Gyngor Gwynedd). Byddai'r parc llif wedi'i leoli ar y ffordd sy'n arwain at yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol/Gorsaf Ynni Dinorwig. Byddai'n creu cyfle i ddatblygu sgiliau beic/sglefr fyrddio a ffitrwydd. Byddai'n adnodd cymunedol, am ddim, dan reolaeth mudiad elusennol. Mae angen comisiynu astudiaeth dichonoldeb.

Cae chwarae bob tywydd – byddai hwn yn ased i'r gymuned, yn darparu cyfleuster hyfforddi i dimau pêl droed lleol, grwpiau rhedeg a chwaraeon eraill.

## 7 Asesiad ymwelwyr

Yn yr adran hon rydym yn asesu'r hyn sydd gan Lanberis i'w gynnig i'r ymwelydd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r cyfleoedd a'r heriau sydd ynghlwm â datblygu'r pentref at y dyfodol.

(Gweler proffil ymwelwyr/twristiaeth cyffredinol yr ardal yn Atodiad 3)

Cynllun/cyrraedd

Mae Llanberis wedi ei leoli ar ffordd yr A4086 o Gaernarfon, ar lan Llyn Padarn ac wrth droed Yr Wyddfa. Mae'r Stryd Fawr yn fywiog, yn llawn caffis, gwestai bach a siopau antur awyr agored. Mae digonedd o feysydd parcio yn y pentref ger y llyn, a rhai llefydd parcio dros dro ar y Stryd Fawr er mwyn mynd i'r siopau a defnyddio'r gwasanaethau.

Gwybodaeth Ymwelwyr: cyfeiriadedd /arwyddion/gwybodaeth twristiaeth

Mae nifer o baneli dehongli ar hyd y Stryd Fawr ac ar un gornel mae arddangosfa ddeniadol o wagenni cario llechi. Hefyd, ceir Pwyntiau Hanes ar hyd y Stryd Fawr.

Ar un adeg, roedd gwasanaeth gwybodaeth i ymwelwyr yng Nghanolfan y Mynydd Gwefru ond mae ar gau am fod gwaith adnewyddu'n digwydd. Felly, mae'r man gwybodaeth i dwristiaid wedi symud i'r Outdoor Shop ar y Stryd Fawr, ond nid yw'r arwyddion ato'n dda iawn. Mae nifer o'r siopau offer dringo yn darparu gwybodaeth am y tywydd i gerddwyr/dringwyr.

Mae Llwybr Llechi Eryri, yn dod i lawr i Barc Padarn o Fethesda, ac mae gwybodaeth ddefnyddiol ar ei wefan.

Cyfleusterau

**Cyfleusterau cyhoeddus:** mae tri o doiledau cyhoeddus yn y pentref.

**Caffis/bwytai:** mae nifer o gaffis ar y Stryd Fawr; y ffefrynnau yw: Llygad yr Haul, Rumdoodles, Caffi Mafon, ond maent i gyd yn cau ddiwedd y prynhawn. Mae Pete's Eats yn gaffi chwedlonol yn Llanberis sydd wedi bwydo cenedlaethau o ddringwyr er nad yw Pete bellach yn y gegin. Mae ar agor gyda'r nos; felly hefyd y tafarndai eraill, sy'n darparu bwyd tafarn digon cyffredin ar y cyfan. Dewis cyfyngedig gyda'r nos.

Atyniadau a Gweithgareddau Ymwelwyr

Mae agosrwydd Llanberis at Barc Cenedlaethol Eryri, ac yn benodol Pas Llanberis a'i gyfleusterau i ymwelwyr, yn golygu ei fod yn lle poblogaidd i ymwelwyr. Mae'r atyniadau i ymwelwyr a ganlyn yn Llanberis, neu yn agos iawn at y dref.

**Yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol** – yn y gweithdai Fictoraidd gwreiddiol ar safle hen chwarel lechi Dinorwig y mae'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol. Mae'r amgueddfa weithredol yn cyflwyno hanes diwydiant llechi Gogledd Cymru trwy arddangosiadau byw, sgyrsiau, arddangosfeydd, digwyddiadau a dehongli. Fe'i rheolir gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru, ac mae'r amgueddfa yn denu oddeutu 142,000 o ymwelwyr y flwyddyn.

**Yr Wyddfa** – daeth 557,991 o ymwelwyr yno yn 2018, sef cynnydd o 32,838 ar ffigyrau 2017.

**Rheilffordd Yr Wyddfa** – dringa'r rheilffordd lethr o 1,085 medr uwchlaw'r môr i gyrraedd copa'r Wyddfa. Ar gyfartaledd, mae hanner miliwn o bobl yn dod i Ganolfan Ymwelwyr Hafod Eryri ar y copa bob blwyddyn.

**Parc Padarn** - mae Parc Gwledig Padarn yn ymestyn dros 800 erw. Ymysg y cyfleusterau a'r gweithgareddau mae: caffis; lle chwarae i blant; llwybrau natur ag arwyddbyst; cwrs antur rhaffau ac ysgolion ar gyfer plant ac oedolion; Lôn Las Peris, llwybr beicio i'r teulu; llwybrau cerdded gan gynnwys llwybr 8k o amgylch Llyn Padarn; Chwarel Vivian, heneb gofrestredig; Canolfan Blymio Vivian; a thri safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig.

**Llyn Padarn** – mae'n rhyw ddwy filltir o hyd ac, ar ei ddyfnaf, mae'n 94 troedfedd (29m), sy'n golygu ei fod yn un o'r llynnoedd naturiol mwyaf yng Nghymru. Mae'n gynefin i'r pysgodyn prin, y torgoch. Caniateir rhwyfo, hwylio a chaiacio; ac mae glanfa lansio cychod. Ymysg y gweithgareddau ar y llyn mae: Canolfan Chwaraeon Dŵr Padarn, cwch Seren yr Wyddfa a Chychod Padarn.

**Rheilffordd Llyn Padarn** - lein fach dreftadaeth sy'n mynd am 2.5 milltir ar hyd glan ogleddol Llyn Padarn.

**Ysbyty'r Chwarel** – mae'r amgueddfa'n cyflwyno hanes gofal iechyd oes Fictoria mewn ward hen ysbyty, ac ymysg y gwrthrychau llawdriniaeth sy'n cael eu harddangos mae offer ysbyty o'r 19eg ganrif.

**Y Mynydd Gwefru** – cludir ymwelwyr mewn bws at yr orsaf yng nghrombil y ddaear, sy'n 750 medr y tu mewn i'r mynydd, i weld y pympiau a'r tyrbinau ar waith.

**Castell Dolbadarn** - fe'i hadeiladwyd ddechrau'r 13eg ganrif gan Llywelyn Fawr. Cadw sydd yn gyfrifol am y castell, sy'n Radd I rhestredig, fel atyniad i ymwelwyr (heb staff).

**Eglwys Sant Padarn** – mae'n dyddio'n ôl i 1885 a saif yng nghanol Llanberis; mae ar agor bob dydd i ymwelwyr.

**Canolfan Awyr Agored Arete -** yn darparu cyrsiau addysg awyr agored i ysgolion, grwpiau a theuluoedd, yn ogystal â hyfforddiant/cymwysterau ar gyfer athrawon gweithgareddau awyr agored; hefyd yn cynnig nifer o weithgareddau awyr agored.

**Anturiaethau Boulder** – yn cael ei redeg o Ganolfan Mynydd Bryn, sy'n darparu llety byncws yn Llanberis. Mae'n cynnig amryw o weithgareddau awyr agored. Gellir eu cynnwys fel rhan o becyn antur preswyl.

<u>Digwyddiadau yn Llanberis</u>

Mae nifer o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yn drwy gydol y flwyddyn, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ddigwyddiadau awyr agored sydd yn canolbwyntio ar redeg/nofio yn Eryri. Y rhai mwyaf adnabyddus yw:

Cynhelir **Ras yr Wyddfa** bob blwyddyn ym mis Gorffennaf, ac mae'n dechrau ac yn gorffen yn Llanberis. Cymerodd 650 o redwyr o ddeng gwlad ran yn y ras i'r copa yn 2019.

Cynhelir **Marathon Eryri** yn flynyddol, ac fe'i henwyd y marathon gorau ym Mhrydain ar ddau achlysur. Mae'r cwrs hynod o galed yn dechrau ac yn gorffen yn Llanberis; mae'r llwybr yn mynd o amgylch cadwyn Yr Wyddfa trwy Ben y Pas, sydd 1,100 troedfedd uwch lefel y môr. Mae 3,000 lle ar gael i redwyr – yn 2019 roedd y rhelyw o lefydd wedi gwerthu o fewn 20 munud o fynd ar werth.

Ymysg y digwyddiadau cystadleuol eraill a gynhelir yn Llanberis neu sy'n dechrau/gorffen yno, â nifer ohonynt yn derbyn nawdd masnachol, mae:

- Ultra Trail Eryri
- Triathlon a Duathlon Llanc y Llechi Eryri – mis Mai
- Her Tair Copa Cymru/ Eryri 500 – mis Mai
- Ras Copaon 1,000m Cymru – mis Mehefin
- Love SwimRun, Llyn Padarn – mis Mehefin
- Inov-8 Gwyll yr Wyddfa – mis Mehefin
- Ras Gychod Draig Hospis Dewi Sant - mis Mehefin
- Ras 22 milltir Snowdonia Seven – mis Gorffennaf
- Marathon Llwybrau Scott Snowdonia: Eithafol, Llawn, Hanner, 10k – mis Gorffennaf
- Ras Ryngwladol yr Wyddfa - mis Gorffennaf
- The Big Welsh Swim, Llyn Padarn - mis Gorffennaf
- Triathlon Chwedl Llanc yr Eira - mis Awst
- Big Brutal Swim – mis Awst

- Seriously Brutal Duathlon – mis Awst
- Brutal Extreme Triathlon: hanner, llawn a dwbl (‘y triathlon anoddaf yn y byd’) – Awst/Medi
- Rat Race: Man vs Mountain – mis Medi
- Maverick Ultra Trail Series – mis Medi
- Snowdon Triple Challenge – mis Medi
- Snowdonia Trail Running Challenge Marathon – Medi/Hydred
- Marathon Eryri  - Hydref
- Enter the Dragon – Hydref

Cynhelir **Carnifal Llanberis** bob mis Gorffennaf ac mae’n gorymdeithio i lawr y Stryd Fawr.

Llety

Mae amrywiaeth eang o lety yn y pentref: saith gwesty/gwesty bach; chwe gwely a brecwast; pump byncws; hostel ieuenctid; dau faes carafanau - symudol a sefydlog; safle glampio/yurts

Mae nifer o lefydd gwersylla a charafanau yn agos at Lanberis, ond gan eu bod dros dair milltir allan o’r pentref, nid ydym wedi eu rhestru yma. Mae oddeutu 280 o lefydd Airbnb yn y pentref.

Proffil ar-lein

Mae gan Lanberis broffil ar-lein cymharol helaeth gan fod cynifer o atyniadau, llety a llefydd bwyta yma. Mae tair gwefan (www.llanberis.com,  www.hwberyri.co.uk a www.llanberis.org) sy’n rhoi gwybodaeth gefndirol am y pentref, lluniau o’r golygfeydd, gwybodaeth am atyniadau i ymwelwyr, rhestrau llety, bwytai a digwyddiadau. Mae gwefan www.llanberis.com yn gwahodd busnesau lleol i’w rhestru eu hunain yn y rhan briodol o’r wefan.

Adolygiadau ymwelwyr

Yn gyffredinol, mae adolygiadau o Lanberis gan ymwelwyr yn gadarnhaol, ac maent yn nodi ystod yr atyniadau a’r argraff gadarnhaol sydd ganddynt o'r pentref, ei amwynderau a’i ymddangosiad. Dyma grynodeb o’r adolygiadau:

Disgrifir Llanberis fel ‘lle gwirioneddol drawiadol, sy’n orlawn o hanes ac eto’n llwyddo i gyfleu llonyddwch’ (www.llanberis.com)

‘Mae gweithgarwch pentref yn gwyrdroi o gwmpas mynydda/dringo, yn ôl y disgwyl, ac mae nifer o siopau offer arbenigol yma. Hefyd, ceir Rheilffordd yr Wyddfa, Y Mynydd Gwefru, Rheilffordd Llyn Padarn a llwybrau cerdded dymunol ar hyd glannau’r llynnoedd. Mae ychydig o dafarndai, caffis, siopau cludfwyd, a siop Spar bach’; ac ‘mae cymaint i deuluoedd ei wneud yn yr ardal.’ (Trip Advisor)

Mae adolygiadau negyddol yn cynnwys: 'dros y penwythnos roedd y dref yn hynod o brysur, ond ar ôl y penwythnos, âi pobl adref ac roedd y lle yn wag a doedd rhai llefydd bwyta ddim i'w gweld ar agor gyda'r nos'; a dywedodd un adolygydd nad oedd yn Llanberis 'ddim byd i'ch cyffroi .' (Trip Advisor).

## 8 Adeiladau a'r Amgylchedd Adeiledig

Rydym wedi cynnal **Asesiad o'r Dreftadaeth Adeiledig Hanesyddol,** a roddodd ystyriaeth i'r meini prawf a ganlyn:

**Gwarchodaeth Statudol:**

- Adeiladau rhestredig (yn ôl gradd: I, II*, II)
- Henebion Cofrestredig
- Adeiladau a nodweddion mewn Ardaloedd Cadwraeth

**'Statws mewn perygl':**

- Fel y'u diffinnir gan gofrestr adeiladau mewn perygl Cadw (BAR) ar gyfer pob ardal unigol. Dyma'r dosbarthiadau:
    - Mewn Perygl
    - Bregus
    - Ddim mewn perygl
- Wedi ei seilio ar archwiliad byr o'r tu allan (gan nodi a yw'r defnydd yn amlwg, a yw'r adeilad yn ymddangos yn anghyfannedd neu'n fregus)

**Cyd-destun treftadaeth y diwydiant llechi:**

- Y pwysigrwydd yng nghyd-destun treftadaeth diwydiant llechi'r ardal (er nad yw cwmpas y gwaith yn caniatáu asesiadau treftadaeth neu ymchwil ar adeiladau na safleoedd unigol)
- Adborth o'r broses ymgynghori am amgyffrediad pobl leol o bwysigrwydd adeilad, nodwedd neu safle
- Cynnig detholiad cynrychiadol o adeiladau a oedd yn cefnogi'r diwydiant llechi a'i chymunedau.

**Potensial adfywio a dehongli:**

- Potensial adeilad unigol neu safle i gyfrannu at adfywio'r ardal, at ddarparu cyfleoedd dehongli arwyddocaol neu gyfleoedd eraill.

Trafodwn ein canfyddiadau yn llawn yn Atodiad 5. Isod, ceir crynodeb o'r prosiectau amgylchedd adeiledig wedi eu blaenoriaethu.

Nid y safleoedd mwyaf arwyddocaol yw'r rhain o reidrwydd, ond maent yn cydbwyso arwyddocâd (yng nghyd-destun y diwydiant llechi) gyda'r potensial i gyfrannu at adfywio cymunedol sylweddol. Rhestrir yr holl brosiectau yn y Cynllun Gweithredu atodol.

Dyma'r safleoedd y dylid eu blaenoriaethu:

1. **Eglwys Sant Padarn (gradd II* rhestredig)** Hwn yw adeilad mwyaf arwyddocaol y pentref; mae ganddo gysylltiadau cryf â'r diwydiant llechi gan i deulu'r Assheton Smith dalu am ei chodi ac am fod y pensaer amlwg Arthur Baker wedi'i ddylunio. Mae'n bosib y gellid cynyddu defnydd a chynaliadwyedd yr adeilad yn fawr a chryfhau'r dolenni dehongli gyda'r chwareli, a chynyddu ac arallgyfeirio'r defnydd. Ond, gall fod angen mwy o adnoddau i'w gynnal.
2. **Capel Jerusalem –** wrth ddynesu at Lanberis o Nant Peris. Gall hwn fod yn lleoliad amlwg iawn gyda chysylltiadau â Chastell Dolbadarn, gysylltiadau gweledol â'r chwareli a chadwyn Yr Wyddfa. Argymhellir cynnal Asesiad o'r Opsiynau ac ymgynghori gyda'r perchennog.
3. **Yr Hen Fanc HSBC** – adeilad o ansawdd da yng nghanol y pentref, safle amlwg. Wedi bod yn wag ers i'r banc gau. Argymhellir cynnal Asesiad Opsiynau ac ymgynghori gyda'r perchennog.
4. **Safle Capel Nant Padarn gynt –** Safle diddorol yng nghanol y pentref; rhai olion o furiau cynnal yr hen gapel a'r muriau terfyn cadarn wedi goroesi. Safle amlwg iawn, gyda chysylltiad gweledol cryf â'r chwareli. Argymhellir cynnal Asesiad Opsiynau ac ymgynghori gyda'r perchennog.
5. **Capel Hebron** – Safle unigryw â chysylltiad â gorsaf Hebron gerllaw ar Reilffordd yr Wyddfa. Hanes diddorol a phosibiliadau gwych. Argymhellir cynnal Asesiad Opsiynau ac ymgynghori gyda'r perchennog.

## 9 Y Prif Heriau a'r Cyfleoedd

Yn dilyn ein hymgynghoriad a'n hymchwil, daeth yn amlwg fod Llanberis yn wynebu rhai heriau sylfaenol, a bydd angen mynd i'r afael â'r rhain os yw'r pentref am wneud y mwyaf o'r budd a ddaw gydag enwebiad Safle Treftadaeth y Byd. Yma, crynhown yr heriau allweddol yr ydym wedi'u hadnabod a'r cyfleoedd a fyddai'n galluogi i'r pentref fynd i'r afael â nhw.

Dadansoddiad SWOT (CGCB)

Mae'r dadansoddiad SWOT (CGCB) yn asesu Llanberis o safbwynt yr ymwelydd ac aelodau'r gymuned, ac mae'n crynhoi cryfderau, gwendidau, cyfleodd a bygythiadau'r cynnig i ymwelwyr a'r ddarpariaeth i drigolion:

| CRYFDERAU | GWENDIDAU |
|---|---|
| **CYMUNED** | **CYMUNED** |
| • Ymdeimlad cryf o gymuned – pobl yn gweithio gyda'i gilydd er budd y gymuned gyfan<br>• Y gymuned yn mynd i'r afael â phroblemau megis ysbwriel ac yn barod i weithredu<br>• Ymateb cadarnhaol i'r apêl am arian ar gyfer atgyweirio'r eglwys.<br>• Defnyddir incwm o dwristiaeth e.e. arian parcio yn y Ganolfan Gymunedol er budd y gymuned<br>• Y gymuned yn elwa o gynllun ynni dŵr Ynni Padarn Peris | • Y gymuned ddim yn elwa o reidrwydd o incwm twristiaeth – angen darganfod ffyrdd o wneud y mwyaf o'r cyfleoedd<br>• Angen i'r gymuned ymdrin yn well ag effaith negyddol twristiaeth<br>• Anallu i reoli'r trefnwyr allanol a phennu rhaglen ddigwyddiadau/datblygiad twristiaeth<br>• Twristiaeth yn cael ei weld gan nifer o drigolion fel ffactor negyddol er mai hwn |

| | |
|---|---|
| • Y Festri yn rhoi canolbwynt creadigol i'r gymuned ac yn gwasanaethu nifer o sectorau | yw'r sector sy'n dod â'r mwyaf o incwm a chyflogaeth i Lanberis. |
| **TWRISTIAETH**<br>• Lleoliad eithriadol yng nghanol Eryri<br>• Ystod eang o atyniadau twristiaeth ac adnoddau i ymwelwyr, gan gynnwys rhai tywydd gwlyb a rhai sydd heb weithgaredd, ac felly mae'n apelio at wahanol fathau o dwristiaid<br>• Digonedd o ddewis o lety â gwasanaeth a hunan- ddarpar i bob cyllideb.<br>• Proffil ar-lein y dref yn dda, gyda gwefannau llawn gwybodaeth wedi eu cynnal yn dda. | **TWRISTIAETH**<br>• Y rhan fwyaf o lefydd bwyta ar agor yn ystod y dydd yn unig<br>• Dewis cyfyngedig o gaffis/bwytai ar agor gyda'r nos. Amrywiaeth annigonol.<br>• Nifer o lefydd bwyta ddim ond ar agor yn ystod tymor gwyliau/adegau brig ac ar gau pan fydd nifer twristiaid yn gostwng (h.y. ganol yr wythnos), sy'n golygu fod y cynnig yn fwy cyfyng yn ystod cyfnodau tawel. |
| **TWRISTIAETH A CHYMUNED**<br>• Tirwedd a golygfeydd unigryw, nodweddion hanesyddol a phensaernïol<br>• Balchder mawr ymysg y gymuned a dyhead i rannu ei hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol gyda chynulleidfa ehangach. | **TWRISTIAETH A CHYMUNED**<br>• Problemau parcio yn y pentref – mae'r cynnydd mewn llety hunan-ddarpar (eiddo gwyliau) yn gwaethygu'r broblem.<br>• Diffyg gofal o'r amgylchedd naturiol ac o ddealltwriaeth o broblemau cynaliadwyedd |
| <u>**CYFLEOEDD**</u> | <u>**BYGYTHIADAU/HERIAU**</u> |
| **CYMUNED**<br>• Byddai cael Statws Safle Treftadaeth Byd UNESCO yn denu math gwahanol o ymwelydd ond golyga hyn reolaeth gofalus er mwyn sicrhau nad yw effaith negyddol twristiaeth yn cryfhau.<br>• Gallai twristiaeth gyfrifol, gynaliadwy ddod ac incwm newydd i'r pentref<br>• Adolygiad o'r sefyllfa parcio a sbwriel gan Gyngor Gwynedd o fewn cynllun cyrchfan integredig ar gyfer Llanberis<br>• Gallai'r datblygiad CRAD ddarparu cyflogaeth a denu math wahanol o ymwelydd | **CYMUNED**<br>• Datblygiad twristiaeth heb ei reoli<br>• Proffil ieithyddol y pentref yn newid – effaith ar nifer y siaradwyr Cymraeg<br>• Lefelau cyflogaeth is oherwydd gostyngiad posibl yng ngwaith Siemens a DMM yn sgil Brexit<br>• Gallai'r datblygiad CRAD gael effaith ddramatig ar isadeiledd, gwasanaethau, ac ati<br>• Cynaliadwyedd economaidd a dirywiad cyffredinol pentrefi mewn ardaloedd gwledig.<br>• Hinsawdd economaidd a gwleidyddol ansicr |
| **TWRISTIAETH**<br>• Darparu adnoddau parcio ychwanegol<br>• Gallai creu llwybrau a chylchdeithiau newydd helpu lliniaru'r heriau gyda llif ymwelwyr<br>• Gallai'r datblygiad yn yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol fod yn atyniad/yn gyrchfan cyffrous newydd<br>• Gwaith dehongli newydd yn Chwarel Dinorwig a safleoedd eraill megis Capel Hebron | **TWRISTIAETH**<br>• Nid yw twristiaeth yn rheoledig. Heb gynllun cyfannol, bydd problemau megis parcio a sbwriel yn parhau<br>• Cynnydd mewn eiddo Airbnb<br>• Diffyg rheolaeth dros wersylla gwyllt/faniau gwersylla<br>• Diffyg dealltwriaeth o effaith twristiaeth ar yr amgylchedd |
| **TWRISTIAETH A CHYMUNED**<br>• Enwebiad am Statws Safle Treftadaeth Byd UNESCO | **TWRISTIAETH A CHYMUNED**<br>• Effaith negyddol twristiaeth (gorboblogi, ac ati), yn arbennig yr effaith ar yr amgylchedd |

| | |
|---|---|
| • Ailddatblygiad yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol - ymdeimlad o falchder diwylliannol a pherthnasedd yr hanes diwydiannol a chymdeithasol; atgyfnerthu ei swyddogaeth fel y ganolfan ar gyfer sefydliad cenedlaethol pwysig yng Ngogledd Cymru<br>• Y gymuned a'r sector dwristiaeth yn datblygu strategaeth integredig er budd y pentref | (trafnidiaeth, sbwriel, llygredd); mae faniau gwersylla yn her benodol.<br>• Prisiau tai yn codi oherwydd pryniant ail gartrefi - mae Airbnb wedi golygu fod gosod tai gwyliau yn haws ac yn fwy cost effeithiol<br>• Os pery'r cynnydd mewn ail gartrefi bydd y problemau parcio yn gwaethygu |

## 10 Casgliadau ac argymhellion

Yn dilyn ein hymgynghoriad a'n hymchwil, sy'n cynnwys yr archwiliad o'r gymuned a'r asesiad ymwelwyr, rydym wedi adnabod y themâu a ganlyn fel y blaenoriaethau adfywio i Lanberis:

- Angen **gwella adnoddau ac isadeiledd i ymwelwyr** er budd ymwelwyr a'r gymuned**.**
- Adeiladu ar **brosiectau dehongli, a rhai hunaniaeth ddiwylliannol a chymdeithasol** sydd eisoes yn bod, ac annog dehongliad mwy cynhwysfawr o Chwarel Dinorwig a'i hadeiladau.
- **Cyfeiriadedd a chysylltiadau** - Creu llwybrau troed a beicio newydd, a mynedfeydd i'r chwarel.
- Darparu **adnoddau hamdden** newydd er budd y gymuned.
- Sicrhau fod **amgylchedd adeiledig hanesyddol** y pentref a'r chwarel yn cael ei warchod ynghyd â mwy o ddehongli'r adeiladau treftadaeth ddiwydiannol a rhai eraill o ddiddordeb pensaernïol.

Cyfleusterau i ymwelwyr ac isadeiledd

Mae Llanberis yn gyrchfan gynyddol boblogaidd ym Mharc Cenedlaethol Eryri, sy'n enwog am ei gweithgareddau awyr agored/antur. Yn ôl y trigolion, mae'r pentref dan ei sang a hynny'n effeithio isadeiledd a gwasanaethau.

- ➢ Dylai'r awdurdodau cynllunio perthnasol roi ystyriaeth i reoli isadeiledd y pentref yn effeithiol – parcio, cael gwared ag ysbwriel. Ar hyn o bryd mae'r gymuned wedi cymryd cyfrifoldeb ychwanegol dros hel ysbwriel, ond mae'n debyg na fydd hyn yn gynaliadwy dros y tymor hir.
- ➢ Annog twristiaeth gynaliadwy ac sy'n parchu'r amgylchedd trwy farchnata cyrchfan; annog trefnwyr gwyliau i hyrwyddo cod ymddygiad gwyrdd i'w cleientiaid.
- ➢ Ystyried trefniadau parcio amgen – mae nifer o drigolion wedi crybwyll Parc Busnes Glyn Rhonwy fel cyfleuster Bws Gwennol er mwyn liniaru problemau parcio yn y pentref.
- ➢ Rheoli datblygiad eiddo Airbnb yn y pentref.

Dehongli, hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol

- Mwy o adnoddau dehongli ac arwyddion yn Chwarel Dinorwig a'i hadeiladau treftadaeth ddiwydiannol pwysig. (Manylir arnynt ar wahân yn Adroddiad Asesiad o Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol Chwarel Dinorwig)
- Dylid annog Engie, perchnogion y chwarel i ddarparu arwyddion ac adnoddau dehongli i ymwelwyr a chanddynt ddiddordeb yn hanes diwydiannol y safle.
- Gallai prif adeiladau'r pentref ddarparu gofodau dehongli newydd, yn arbennig Eglwys Sant Padarn a Chapel Hebron.
- Dylai'r cyfoeth o ddeunydd archifol a gasglwyd gan Gareth Roberts, Menter Fachwen gael ei arddangos yn briodol a dylid ei ariannu'n iawn. (Wrthi'n aros am gadarnhad ar leoliad newydd posib).
- Mae ailddatblygiad yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol yn allweddol i'r gwaith o ddehongli'r diwydiant llechi yn Llanberis yn y dyfodol.

Cyfeiriadedd a chysylltiadau

- Mae nifer o lwybrau troed a beicio newydd wedi eu cynnig, a gallai nifer ohonynt gysylltu gyda llwybrau newydd o ochr Deiniolen Chwarel Dinorwig, ac fel y nodwyd yn barod yng Nghynllun Cynefin Deiniolen.
- Gallai cynllun sy'n ymdrin â llif ymwelwyr, tagfeydd traffig a system gyfeiriadedd newydd fod o fudd mawr i Lanberis. Gallai hefyd ddarparu rhwydwaith amgen o lwybrau a fyddai'n annog ymwelwyr i grwydro ymhellach yn yr ardal.
- Byddai llwybrau natur newydd wedi'u creu gan Fenter Fachwen, ynghyd â chynllun plannu coed, gyda chefnogaeth ffermwyr lleol, yn ased i'r ardal.

Cyfleusterau hamdden

- Byddai'r gymuned, yn arbennig pobl ifanc, yn elwa o gael gwell cyfleusterau hamdden megis parc llif (Flow Park) a chae chwarae bob tywydd.
- Gan fod Deiniolen hefyd yn ystyried darparu cae chwarae bob tywydd, gallai fod yn ddefnyddiol i'r ddau bentref gyd-drafod.

Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol

Mae nifer o adeiladau pwysig a nodweddion adeiledig sydd yn haeddu sylw pellach o safbwynt adnewyddu, ail-ddefnyddio a photensial adfywio. Mae mwy o wybodaeth ac asesiad cychwynnol, yn ddibynnol ar drafodaeth bellach gyda'r mudiadau cadwraeth perthnasol a swyddogion, yn yr Astudiaeth o'r Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol (Atodiad 5).

Yn sgil adolygiad o safleoedd treftadaeth wedi'u gwarchod (h.y. rhestredig neu gofrestredig), a'r rhai sydd heb eu gwarchod hyd yma, mae nifer o ddarpar brosiectau allweddol wedi dod i'r amlwg.

Nid y safleoedd mwyaf arwyddocaol yw'r rhain o reidrwydd, ond maent yn cydbwyso arwyddocâd (yng nghyd-destun y diwydiant llechi) gyda'r potensial i gyfrannu at adfywio cymunedol sylweddol. Manylir ar y rhain yn Adran 8/Yr Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol a'r Cynllun Gweithredu atodol.

Cefnogaeth y gymuned a mudiadau

Mae ymroddiad y gymuned yn Llanberis, drwy weithgareddau'r gwahanol grwpiau cymunedol, yn neilltuol ac yn golygu bod y pentref yn uned eithaf hunangynhaliol.

- Mae Canolfan Gymunedol Llanberis yn ei chynnal ei hun a sefydliadau lleol eraill drwy'r cyllid a ddaw o faes parcio'r ganolfan.
- Dylid canmol gwaith Grŵp Datblygu Cymunedol Llanberis, sydd yn cymryd cyfrifoldeb dros gasglu ysbwriel yn ychwanegol, ond yn y tymor hir efallai na fydd hyn yn gynaliadwy a dylid annog creu cynllun rheolaeth ddilys.
- Mae'r Festri yn darparu gofod cymunedol pwysig, gan annog creadigrwydd a datblygu sgiliau.
- Mae'r gymuned yn elwa o gynllun trydan dŵr Ynni Padarn Peris, a chyn bo hir, bydd yn cyfrannu arian dros ben tuag at brosiectau cymunedol.

**11 Ffynonellau ariannu posib**

Rydym wedi adnabod y ffynonellau ariannu posib isod. Manylir ar ffynonellau hyn ymhellach yn y ddogfen ariannu atodol (ynghyd â ffynonellau eraill llai), a byddwn yn eu hystyried wrth ddatblygu'r prosiectau arfaethedig:

- Cais Twf Gogledd Cymru
- Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig
- Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS)/Cronfa Busnesau Bach a Micro
- Datblygu Cynllun Rhodd Ymwelwyr

Arian Loteri:

- Gwobrau i Bawb y Loteri Genedlaethol
- Pawb â'i Le ( Grantiau Canolig a Mawr)
- Rhaglen Wledig Rownd 2
- Y Gronfa Dreftadaeth (CTL gynt)

- Rhaglen Datblygu Gwledig/ Arloesi Gwynedd Wledig (LEADER)
- Y Gronfa Dreftadaeth Bensaernïol
- Rhaglen Cartrefi Gwag
- Grantiau Cymorth Cartrefi Gwag
- Adfywio Llywodraeth Cymru
- Rhaglen Adnoddau Cymunedol/Llywodraeth Cymru
- Economi Sylfaenol/Llywodraeth Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cronfa Datblygu Gwirfoddol /Gwynedd
- Cist Gymunedol/Chwaraeon Cymru
- Cronfa Gymunedol First Hydro
- Ymddiriedolaeth Gaynor Cemlyn-Jones
- Cronfa Celfyddydau Cymunedol Gwynedd, Cyngor Gwynedd

Mae'r prosiectau hyn wedi eu hadnabod yn sgil ymgynghoriad gyda'r gymuned leol a budd-ddeiliaid. Ond, bydd y gwaith o'u gweithredu a'u blaenoriaethu, fel dengys y Cynllun Gweithredu, yn ddibynnol ar adnabod corff arweiniol addas a sicrhau'r arian i ymgymryd â'r gorchwylion a adnabuwyd. Bydd y Cynllun Gweithredu'n cael ei adolygu'n flynyddol gan Gyngor Gwynedd a budd-ddeiliaid allweddol.

**<u>Atodiad 1 Rhestr o unigolion/mudiadau yr ymgynghorwyd â nhw</u>**

- Yr Amgueddfa Lechi Genedlaethol
- Canolfan Gymunedol Llanberis
- Canolfan Ryngwladol Adnoddau Daear
- Cyngor Cymuned Llanberis
- Engie/Gorsaf Ynni Dinorwig
- Grŵp Datblygu Cymunedol Llanberis/Pentref Taclus Llanberis
- Hwb Eryri
- Menter Fachwen
- Pwyllgor Apêl Eglwys Sant Padarn
- Ras yr Wyddfa
- Y Festri
- Ynni Padarn Peris
- Framed Bicycle Company
- Elin Tomos, Hanesydd Lleol
- Kevin Jones, Cynghorydd Sir, Cyngor Gwynedd
- Lindsey Colbourne, Artist
- Swyddog Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd

## Atodiad 2: Mynegai Amddifadedd Lluosog/Sectorau Cyflogaeth

Mae'r tablau isod yn dangos yr holl ddata ar gyfer Llanberis, gan gynnwys sut y mae'r rhengoedd yn cymharu gyda phob mesurydd drwy Wynedd gyfan:

| Llanberis: Mynegai amddifadedd lluosog | | | |
|---|---|---|---|
| | **Rheng yn gyffredinol (allan o 1909)** | **Cyffredinol %** | **Rheng yng Ngwynedd (allan o 73)** |
| Cyffredinol | 1208 | 50% Isaf | 44 |
| Incwm | 1193 | 50% Isaf | 47 |
| Cyflogaeth | 1387 | 50% Isaf | 33 |
| Iechyd | 1190 | 50% Isaf | 29 |
| Addysg | 1070 | 50% Isaf | 23 |
| Mynediad i wasanaethau | 317 | 10% - 20% Uchaf | 34 |
| Diogelwch cymunedol | 1406 | 50% Isaf | 52 |
| Amgylchedd Ffisegol | 1697 | 50% Isaf | 60 |
| Tai | 512 | 20% - 30% Uchaf | 41 |

Cyflogaeth fesul sector

Dengys y tabl isod (ffynhonnell: data cyfrifiad, 2011) y sectorau lle cyflogir aelodau'r gymuned sy'n weithgar yn economaidd. Ar y cyfan, mae cyfran y boblogaeth a gyflogir ym mhob sector yn Llanberis yn debyg iawn i'r cyfrannau cyfartalog a gyflogir ym mhob sector yng Ngwynedd gyfan - dim ond cyfanwerthu a manwerthu sydd ag amrywedd o fwy na 3%, mae gan y mwyafrif amrywedd o 2% neu lai.

| Sector cyflogaeth | Llanberis | Cyfartaledd Gwynedd |
|---|---|---|
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota | 1.7% | 3.5% |
| Mwyngloddio, chwarela, ynni, dŵr | 2.3% | 2.6% |
| Gweithgynhyrchu | 8.4% | 5.8% |
| Adeiladu | 9.1% | 9.6% |
| Manwerthu a chyfanwerthu | 10.2% | 14.5% |
| Trafnidiaeth a storio | 5.2% | 3.4% |
| Llety a gwasanaethau bwyd | 10.5% | 9.8% |
| Cyfathrebu, cyllid ac eiddo | 2.2% | 4.3% |
| Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 4.8% | 3.7% |
| Gwasanaethau gweinyddol a chefnogaeth | 2.9% | 3.5% |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn | 6.6% | 6.4% |
| Addysg | 14.8% | 12.6% |

| | | |
|---|---|---|
| Iechyd a gwaith cymdeithasol | 13.4% | 14.7% |
| Arall | 7.9% | 5.6% |

## Atodiad 3 Cyd-destun Strategol

Manylir ar y cyd-destun strategol yn y ddogfen *Y Cyd-destun Strategol ar gyfer Ardal y Llechi*. Ond, dyma grynodeb o'r polisïau sydd yn dylanwadu ar weithgareddau yn ardal Llanberis:

**Cenedlaethol:**

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru
- Twristiaeth 2020 (Partneriaeth ar gyfer Twf), Llywodraeth Cymru
- Ffordd Cymru, Croeso Cymru
- Blynyddoedd Thematig, Croeso Cymru
- Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru, Llywodraeth Cymru
- Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol i Gymru, Cadw
- Ysbrydoli: Ein Strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau yng Nghymru, Cyngor Celfyddydau Cymru

**Rhanbarthol/Sirol:**

- Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023, Cyngor Gwynedd
- Cynllun Gwella Cyngor Gwynedd 2018 – 2023, Cyngor Gwynedd
- Datganiad Llesiant Cyngor Gwynedd, Cyngor Gwynedd
- Cynllun Celfyddydau Cyngor Gwynedd, Cyngor Gwynedd
- Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol, Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru
- Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013-2020, Cyngor Gwynedd
- Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

**Lleol**

- Ein Heconomïau Lleol; Cymunedau'n Adeiladu Ffyniant; Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau
- Cynllun Economaidd Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru 2016 – 2020, Cyngor Gwynedd

## Atodiad 4 Proffil Ymwelwyr/Twristiaeth

Dyma grynodeb o broffil ymwelwyr i Wynedd i roi gwell dealltwriaeth o'r mathau o ymwelwyr y mae Llanberis yn eu denu ar hyn o bryd ac y gallai eu denu, yn ogystal â'r cymhelliant a'r rhesymau dros ymweld.

Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013-2020

Prif amcanion Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013-2020 yw:

- ymestyn y tymor ymwelwyr
- cynyddu gwariant gan ymwelwyr
- gwella ansawdd profiad yr ymwelydd
- gwella'r cymathiad rhwng twristiaeth ac agweddau eraill o fywyd
- gwella'r amgylcheddau naturiol, adeiledig a diwylliannol
- adeiladu a chynnal a chadw isadeiledd a mwynderau cyhoeddus o ansawdd
- darparu swyddi o ansawdd, sy'n talu'n dda drwy gydol y flwyddyn, a datblygu sgiliau

Cynhaliwyd arolwg ar-lein fel rhan o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan ac, er mai ar gyfer Gwynedd gyfan y mae'r canfyddiadau, mae'r rhan fwyaf o'r materion a godwyd yn berthnasol i Lanberis. Gellir nodi'r rhain fel y prif faterion sydd angen ymdriniaeth:

- Gwell cyfleusterau i ymwelwyr
- Gwell cyfleusterau cyhoeddus, e.e. goruwchadeiledd ymwelwyr, megis llety gwyliau a gweithgareddau penodedig
- Elfennau isadeiledd, gan gynnwys ffyrdd a gofodau cyhoeddus eraill
- Atyniadau o ansawdd i ymwelwyr
- Darpariaeth parcio
- Gwell gwasanaethau lleol
- Ymddwyn y fwy cyfeillgar tuag at ymwelwyr
- Gwell siopau a gwell cyfleoedd i siopa

Dylai unrhyw ddatblygiadau twristiaeth yn ardal Llanberis roi ystyriaeth i'r amcanion a'r materion a nodwyd uchod, er mwyn sicrhau bod unrhyw brosiectau ar lefel leol yn dylanwadu ar flaenoriaethau strategol y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan.

<u>Arolwg Ymwelwyr Cymru, 2013; anghenion ymwelwyr</u>

Dyma **brif ganfyddiadau'**r arolwg o anghenion ymwelwyr a gynhaliwyd yn 2013 (fel rhan o Arolwg Ymwelwyr Cymru):

- Ychydig iawn o wibdeithiau dydd sy'n cael eu trefnu; adroddodd 69% o ymwelwyr dydd i Gymru a holwyd nad oeddynt wedi defnyddio unrhyw wybodaeth wrth gynllunio eu trip i Gymru
- Defnyddiodd 57% o ymwelwyr a oedd yn aros yn y DU wybodaeth ar-lein i gynllunio eu hymweliadau, sy'n cymharu â 18% a ddefnyddiodd ffynonellau ddim ar-lein. Ond, mynegodd nifer o gyfranogwyr bwysigrwydd deunydd wedi'i argraffu yn ystod eu hymweliad; defnyddiodd 38% o ymwelwyr i Gymru a oedd yn aros yn y DU ffynonellau ddim ar-lein yn ystod eu hymweliad, sy'n cymharu â 17% a ddefnyddiodd ffynonellau ar-lein.
- Y dylanwadau pwysicaf ar ddenu ymwelwyr newydd i ardal yw argymhellion a phrofiadau ffrindiau/perthnasau/cyd-weithwyr
- Mae pobl leol, yn arbennig darparwyr llety, yn chwarae rhan bwysig mewn dylanwadu ar le mae ymwelwyr yn mynd. Mae ymwelwyr yn ceisio eu cyngor nhw, ac mae ganddynt fwy o ffydd ynddynt hwy nac mewn adolygiadau ar-lein am eu bod yn byw yno. Felly, mae llawer o

ymwelwyr yn defnyddio gwybodaeth leol i wirio eu rhestr gweithgareddau a baratowyd, neu i gael syniadau newydd.

Mae'n amlwg fod deunyddiau marchnata a gwybodaeth ar-lein a ddim ar-lein yn bwysig i ymwelwyr ac mae'n bwysig ystyried y canfyddiadau hyn wrth adolygu presenoldeb a phroffil ar-lein Llanberis. Mae'r un peth yn wir wrth gynllunio ymgyrchoedd marchnata i'r dyfodol ac wrth ddatblygu deunyddiau hyrwyddo/wedi'u hargraffu. Gellid ystyried sefydlu cynllun Llysgenhadon gyda phobl leol yn gweithredu fel Llysgenhadon/tywyswyr/ffynonellau gwybodaeth i ymwelwyr.
Arolwg Ymwelwyr Cymru, 2016

Dyma'r **prif ganfyddiadau am broffil ymwelwyr â Gwynedd** a gyflwynwyd gan Beaufort Research yn Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016:

- Mae mwyafrif yr ymwelwyr â Gwynedd yn byw yn Lloegr (60%)
- Mae canran yr ymwelwyr sy'n aros dros nos yng Ngwynedd yn uwch na'r cyfartaledd, ac mae lawer yn uwch na chanran yr ymwelwyr â Chymru gyfan (37%) sy'n dod o weddill y DU
- Mae oddeutu traean (37%) yr ymwelwyr yn byw yng Nghymru o'i gymharu â 59% o'r holl ymwelwyr â Chymru; mae 3% yn byw dramor, o gymharu â 4% ar gyfartaledd yng Nghymru gyfan
- Mae Gwynedd yn denu canran uwch o ymwelwyr mwy cefnog ABC1[1] (48%) o'i gymharu â holl safleoedd Cymru (32%).
- Yn ôl yr arolwg, mae dros draean yr ymwelwyr â Gwynedd (35%) yn ymweld gyda phlant (â'r mwyafrif ohonynt yn blant bach)
- Mae cwta draean (30%) yr ymwelwyr yn gyplau
- Roedd mwyafrif sylweddol (71%) yr ymwelwyr â Gwynedd (o'r rhai a holwyd) wedi dod am y diwrnod, sydd lawer yn is na'r canran ar gyfer Cymru gyfan, sef 88%.
- Mae mwyafrif llethol yr ymwelwyr sy'n aros dros nos yn byw yn Lloegr (82%), a nifer cyfartalog y nosweithiau a arhoswyd yng Ngwynedd yw 5.8, o'i gymharu â 6.0 ar draws Cymru

**Y rhesymau dros ymweld, a'r gweithgareddau a wnaed**

- Nododd mwyafrif (73%) yr ymwelwyr â Gwynedd mai'r rheswm dros ymweld oedd cael mwynhau'r dirwedd/cefn gwlad/traethau, sydd yn ganran uwch nac ar gyfer Cymru gyfan (56%)
- Roedd ymwelwyr â Gwynedd hefyd yn llawer mwy tebygol o fod wedi dod yno i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored o'i gymharu â holl ardaloedd Cymru (41% yn hytrach na 25%)
- Y tri gweithgaredd mwyaf poblogaidd ymysg rhyw draean o'r ymwelwyr â'r rhanbarth oedd mynd i'r traeth (34%), ymweld yn gyffredinol (33%) a mynd i barciau gwledig (31%).

**Boddhad, ail-ymweld ac argymell:**

[1] Mae ABC1 a C2DE yn raddau cymdeithasol bras; mae chwe categori (A, B, C1, C2, D a E) ac fe'u defnyddir gan Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol y DU. Dyma'r categoriau:
AB – galwedigaethau rheoli, gweinyddu a phroffesiynol canolradd ac uwch
C1 – galwedigaethau goruchwylio,clerigol, rheoli, gweinyddu a phroffesiynol is
C2 – galwedigaethau gwaith llaw medrus
DE – galwedigaethau gwaith llaw rhanol fedrus a di-grefft; y di-waith a galwedigaethau raddfa isaf

- Yn gyffredinol, roedd ymwelwyr â Gwynedd yn hynod o fodlon gyda'u hymweliad â Chymru, gydag wyth o bob deg (82%) yn rhoi sgôr o 9 neu 10 (allan o 10) i Gymru fel cyrchfan.
- Roedd tripiau ymwelwyr i/yng Nghymru y tu hwnt i ddisgwyliadau ychydig dros draean o ymwelwyr â Gwynedd - gyda 37% yn datgan fod yr ymweliad yn well na'r disgwyl
- Dywedodd yr holl ymwelwyr â Gwynedd bron y byddent yn debygol o ddychwelyd i Gymru yn y dyfodol (98%); gyda 92% yn bendant am ddychwelyd a 6% yn debygol o ail-ymweld.

<u>Nifer yr ymwelwyr a'r effaith economaidd cysylltiol</u>

2016 oedd y flwyddyn fwyaf llwyddiannus hyd yma i'r sector dwristiaeth yng Ngwynedd (data 2016 yw'r mwyaf diweddar sydd ar gael). Gwariodd twristiaid dros £1 biliwn yn yr economi leol. Ynghyd â chynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn ystod y prif dymor gwyliau, gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd yn y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Ebrill o'i gymharu â blynyddoedd cynharach.

Ymwelodd dros 7 miliwn o bobl â Gwynedd yn 2016, sef cynnydd o 3.2% ar y flwyddyn flaenorol; roedd 3.5 m o'r rhain yn aros yma (cynnydd o 5.5% ar 2015), a'r 3.6 m arall yn ymweld am y dydd.

O ran yr effaith economaidd, cafwyd gwariant uniongyrchol £0.75 biliwn yn 2016 (cynnydd o 4.7% ar y flwyddyn flaenorol). Canlyniad hyn oedd effaith economaidd o dros £1 biliwn (cynnydd o 4.5% ar 2015). Yn 2016, cyflogwyd 12,725 yn uniongyrchol yn sgil twristiaeth (cynnydd o 1.6% ar 2015); a chyrhaeddodd cyfanswm cyflogaeth (FTE) 15,557 (cynnydd o 2.1% o'r flwyddyn flaenorol). (Ffynhonnell: data STEAM).

**<u>Atodiad 5 : Taflenni Astudiaeth o Gyfleoedd yr Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol</u>**

WSTS03 Adeiladau Rhestredig
WSTS06 Adeiladau a nodweddion eraill
WSTS10 Cyfleoedd yn Llanberis
Matrics adeiladau a chyfleoedd: Llanberis, Deiniolen a Dinorwig